

defnydd yn cynnig rhai awgrymiadau amdano. Ymddengys mai gwisg rhan uchaf y corff — gwisg i ddynes o bosibl — oedd hon, ac mae wedi ei brodio'n gywraint iawn mewn dull sy'n efelychu brocadwaith soumak (gwead ystof-anwe). Mae'r cynlluniau a frodiwyd arno'n cynnwys adar a llewod arddulliedig, sy'n tynnu'n wreiddiol ar fotiffau o ran ddwyreiniol Môr y Canoldir, ond a arferwyd mewn dull lleol. Mae'r defnydd ei hun o'r ansawdd gorau un, ac mae'n dangos mor ysblennydd oedd rhai o wisgoedd llys diwedd y 9ed ganrif a dechrau'r 10ed.

Taflodd y gwaith archwilio archeolegol ar y safle yn Llyn Syfaddan oleuni dramatig ar y cyfnod hwn yn hanes yr Oesoedd Canol cynnar yng Nghymru — cyfnod nad oes gennym fawr ddim dealltwriaeth ohono. Mae'r canlyniadau'n anarferol hefyd o ystyried bod y math hwn o safle'n unigryw yng Nghymru, ac y gellir ei olrhain a'i ddyddio'n agos iawn yn y cofnodion hanesyddol. Mae ffynonellau dogfennol a darganfyddiadau, fel y darn hynod hwn o ddefnydd, yn ategu'r ddadl mai dyma un o lysoedd brenhinol teyrnas Brycheiniog.

Louise Mumford (Cadwraethydd) a Mark Redknapp (Arbenigwr ar yr Oesoedd Canol), Adran Archeoleg a Numismateg, Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol Caerdydd

Esmwythfainc Rhydodyn

Golygai'r gwaith o adfer Castell Sain Ffagan bod gennym gyfle o'r diwedd i arddangos gwrthrychau na chawsant eu gweld gan y cyhoedd hyd yn hyn. Bu gwahanol eitemau o ddodrefn â chlustogwaith o stad Rhydodyn ger Talylychau, Llandeilo ar fenthyg i Amgueddfa Werin Cymru er 1947. Ym 1998 fe'u prynwyd gan yr amgueddfa, ac wedi inni wneud peth gwaith cadwraeth yr oedd dirfawr angen ei wneud arnynt, rhoddwyd y dodrefn ar ddangos. Esmwythfainc yw'r dodrefnyn mwyaf ac mwyaf trawiadol, ac roedd y gwaith cadwraeth ar hon yn broject hynod ddiddorol, heb sôn am fod yn gryn her.

Mae gan yr esmwythfainc orchuddion o sgwariau gwaith-cynfas 5 modfedd yr un, â borderi o edau sidan ac edafedd lliw (defnyddiwyd peth edau metel a gleiniau'n addurn ac i dynnu sylw at rannau o'r gwaith). Mae rhai o'r sgwariau'n dangos cynlluniau brodwaith edafedd tapestri gwreiddiol sy'n ymddangos drachefn, gydag amrywiadau. Gwniwyd y sgwariau at ei gilydd i ffurfio pedwar panel - y sedd, y cefn yn ei gyfanrwydd (gwniwyd yr adrannau mewnol a'r adrannau allanol at ei gilydd yn un darn), a dwy fraich oedd wedi'u tacio wrth fframin clustogwaith. Ceir mowldiadau o bren cerfiedig o amgylch yr ymyl isaf a phaneli o sgrölwaith cerfiedig dros rannau blaen y breichiau.

Daeth yn amlwg ar yr olwg gyntaf y byddai'n rhaid ymgymryd â llawer o waith adfer ar yr esmwythfainc cyn y byddai'n barod i'w harddangos, gan ei bod yn fudr, yn ddi-raen ac yn ddigon llwm yr olwg. Roedd llawer o'r semiau wedi'u rhwygo ac roedd pla o wyfnod wedi difetha llawer o'r brodwaith gwlan, yn arbennig o amgylch ymylon mewnol y sedd. Ni fyddai glanhau arwyneb yr esmwythfainc a'i thrwsio yn ôl y gofyn o dro i dro yn ddigonol ac yn sicr ni fyddai hynny'n diogelu'r dodrefnyn rhai dirywio ymbellach. Er mwyn medru trin pob un panel o'r gwaith cynfas, roedd gofyn eu tynnu'n rhydd o'r is-strwythur.

Tynnwyd y mowldiadau yn rhydd, gan ddangos y rhes isaf o daciau. Fodd bynnag, darganfuwyd wedyn na ddefnyddiwyd y dechneg arferol o adeiladu fframin cyfan

ultimately derived from eastern Mediterranean motifs, but exercised in a local style. The textile is of the highest quality, and illustrates the brilliance of some of the courtly attire of the late 9th and early 10th centuries.

The archaeological investigation of the site at Llangorse has shed dramatic light on this very poorly understood period of early medieval Wales. The results are all the more unusual in that the type of site is unique within Wales, and it can be closely dated and identified in the historical record. Documentary sources and finds, such as the remarkable textile, support its identification as one of the royal courts or *llysoedd* of the kingdom of Brycheiniog.

Louise Mumford (Conservator) & Mark Redknapp (Medievalist), Department of Archaeology & Numismatics, National Museum & Gallery Cardiff

The Edwingsford Sofa

The refurbishment of St Fagans Castle has resulted in the display of some previously unexhibited specimens. Since 1947, various items of upholstered furniture from the Edwingsford estate, near Talley, Llandeilo, had been on loan to the Museum of Welsh Life. In 1998 the Museum purchased them, thus initiating some much-needed remedial conservation and subsequent display. The largest and most spectacular piece is a sofa, the conservation of which formed a fascinating and challenging project.

The sofa has top covers of individual 5in. canvas-work squares embroidered with coloured wool and silk (some metal threads and beads are used for decoration and highlighting). Some squares illustrate original Berlin wool-work designs which are repeated with variations. The squares are sewn together to form four separate panels - seat, complete back (inner and outer sections sewn together as one piece) and two arms tacked to an upholstered frame. There are carved wooden mouldings around the lower edge and carved scroll panels applied over the arm fronts.

At first sight, it was clear that extensive treatment was required to make the sofa suitable for display. It was dirty, worn and shabby. Many seams had ripped and a previous moth infestation had destroyed much wool embroidery, especially around the seat's inner edges. Surface cleaning and running repairs would not be adequate and certainly would not stabilise it. In order for each panel of canvas-work to be treated, complete removal from the under structure was necessary.

The mouldings were removed easily to reveal the lower row of tack heads. However, it was then discovered that instead of the usual upholstered technique of a complete one-piece frame upholstered as a whole, the sofa comprised four separate frames each individually upholstered, covered in the canvas work panels, and then screwed and bolted together. The embroidered panels had been extensively tacked to each carcass section and approximately 300 tacks had to be carefully removed without ripping the canvas work, although they had already made rusty holes in the fabric.

During the dismantling process an interesting discovery was made. A tale accompanying the sofa told of visitors to Edwingsford being asked by Lady Hamlyn Williams to embroider squares which were then sewn together to cover it. As the tacks were released along the base edges, small

yn un rhan a glustogwyd yn un darn, ac yn hytrach bod i'r esmwythfainc bedwar fframin. Clustogwyd pob un yn unigol, ei orchuddio gyda'r paneli cynfaswaith, ac yna eu sgriwio a'u bolltio wrth ei gilydd. Taciwyd y paneli brodwaith yn drylwyr i wahanol rannau o'r fframinau hyn ac roedd gofyn tynnu rhyw 300 o daciau yn ofalus heb rwygo'r cynfaswaith, er iddynt eisioes wneud tyllau rhydlyd yn y defnydd.

Yn ystod y broses o dynnu'r esmwythfainc yn ddarnau gwnaethom ddarganfyddiad diddorol. Yn ôl un hanes a gysylltid â'r esmwythfainc, byddai Lady Hamlyn Williams yn gofyn i ymwelwyr â Rhydodyn i frodio sgwariau y byddai wedyn yn eu gwnïo wrth ei gilydd i orchuddio'r esmwythfainc. Wrth inni ryddhau'r taciau ar hyd ymylon y gwaelod, dechreuodd mân ddarnau o labeli papur ddisgyn o'r tu ôl i'r cynfaswaith. Wrth inni dynnu'r cynfaswaith yn ôl yn ofalus gwelwyd bod labeli eraill wedi'u glynu wrth gefn pob sgwaryn, ac enw ar bob label. Roedd yr enwau'n dangos yn eglur pwy oedd wedi brodio pob sgwaryn ac ar y cyfan roeddent yn gyfain ac yn ddarllenadwy, gyda dyddiadau ar rai ohonynt.

Darganfuwyd mân ddarnau o rubanau melfed sidan du ar hyd ymylon cudd y paneli ac o dan y mowldiadau. Mae'n rhaid bod y rhubanau melfed hyn wedi eu gwnïo yn wreiddiol ar ffurf rhyllwaith a oedd yn gorchuddio'r semiau, gan gysylltu'r sgwariau cynfaswaith.

Wedi'r broses o dynnu'r esmwythfainc yn ddarnau, archwilwyd y paneli cynfaswaith a chynigiwyd awgrymiadau ar sut i'w glanhau a'u sefydlogi ymhellach. Gan fod yr amser yn brin, nid oedd modd i ni wneud y gwaith yn yr Amgueddfa ei hun, felly anfonwyd y pedwar panel at bartneriaeth cadwraeth tecstilau ym Mryste i'w trin. Wedi cofnodi'r labeli, fe'u tynnwyd er mwyn mynd at y defnydd i'w lanhau. Defnyddiwyd bwrdd smotio gwactod sugnedd isel ar gyfer y broses lanhau gan fod rhai o'r lliwiau a ddefnyddiwyd yn y brodwaith yn arbennig o anodd i'w canfod. Golygai'r dull hwn bod modd glanhau pob sgwâr cynfaswaith yn unigol gyda'r

fragments of paper labels started to drop out from behind the canvas work. As the canvas work was carefully peeled back, other labels were found stuck to the reverse of each square, each label bearing a person's name. The names clearly indicated who had embroidered each square and were mostly intact and legible, some being dated.



Roedd y geiriau 'Charlotte Chichester March 22nd 1845' i'w gweld ar un o'r sgwariau cynfaswaith
One canvas work square was dated on the reverse 'Charlotte Chichester March 22nd 1845'

Fragments of black silk velvet ribbons were also found along unexposed panel edges and from under the mouldings. Originally these velvet ribbons must have formed a grid covering the seams, joining each canvas-work square together.

Following the dismantling process, the canvas-work panels were examined and proposals made for further cleaning and stabilisation. The work required could not be carried out in house owing to time restrictions, so the four panels were sent to the Textile Conservation Partnership in Bristol for conservation treatment. Once documented, the labels were detached to facilitate

cleaning. A low suction vacuum spotting table was used for the cleaning process as some of the dyes used in the embroidery were particularly fugitive. This method allowed each canvas-work square to be cleaned individually with appropriate washing solutions and solvents according to the dyes present. Each panel was then supported on undyed linen, which strengthened and made re-application onto the upholstered sections easier and the finished sofa more stable. Fine nylon net was applied around the frayed and tack-holed edges.

The upholstered carcass sections were thoroughly surface cleaned to remove extensive dust and moth frass. Following concern that there might be still some live moth eggs or larvae, each section was double-wrapped and sealed in polythene and then frozen for a month.

A new method of attaching the cleaned and stabilised canvas-work panels had to be devised. It was important to limit the number of staples put into the already damaged wooden carcass and to find a method which did not put them directly through the



Ochr arall y panel cefn cyn tynnu'r labeli a'i lanhau
The reverse side of the back panel before removal of the labels and cleaning

toddiannau golchi a'r toddyddion priodol gan ddibynnu ar ba liwiau oedd yn bresennol. Cydiwyd pob panel wedyn wrth liain heb ei liwio, a olygai bod y paneli'n gryfach, ei bod hi'n haws i'w hailosod ar y darnau clustogwaith a bod yr esmwythfainc orffenedig yn gadarnach o'r herwydd. Gosodwyd net neilon mân o amgylch yr ymylon oedd wedi breuo a'r tyllau a achoswyd gan y taciau.

Glanhawyd arwyneb y rhannau hynny o'r fframin oedd wedi eu clustogi yn drwyadl er mwyn tynnu'r llwch a'r baw gwyfynod a oedd yno. Ofnem y gallai fod yno wyau neu larfâu gwyfynod byw o hyd, ac felly lapiwyd pob rhan ddwywaith, ei selio mewn polythen a'i rewi am fis.

Rhaid oedd dyfeisio dull newydd o gysylltu'r paneli cynfaswaith wedi iddynt gael eu glanhau a'u sefydlogi. Roedd hi'n bwysig cyfyngu ar y nifer o styffylau a wthiwyd i'r fframin pren, a oedd wedi ei niweidio'n barod, ac yn bwysig hefyd dod o hyd i ddull na fyddai'n eu gosod drwy'r cynfaswaith ei hun. Ni fyddai neb yn eistedd ar yr esmwythfainc fyth eto, felly nid oedd hi'n hanfodol bwysig eu bod wedi eu cysylltu'n gadarn, ac roedd hi'n bwysig hefyd medru tynnu'r paneli heb achosi difrod, pe bai angen gwneud hynny i'r dyfodol.

Styffylwyd hydroedd o dâp cotwm wrth y fframiau pren ar hyd y rhesi gwreiddiol o dyllau a grëwyd gan y taciau. Gosodwyd styffylau bob 15cm i roi sail gadarn y gellid gwnïo'r paneli wrthi gan ddefnyddio nodwydd grom. Rhaid oedd pwytho ymylon mewnol y breichiau a'r cefn yn gyntaf cyn sgriwio a bolltio'r darnau hyn yn ôl i'w lle. Gallem wedyn osod yr ymylon allanol yn eu lle a'u gwnïo yno.

Wedi trin y mowldiadau a'r coesau, fe'u hail-gysylltwyd gan ddefnyddio'r sgriwiau a'r hoelion gwreiddiol lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl. Gobeithiwn y bydd modd tynnu'r labeli a dynnwyd o'u cefnau yn y man, fel y byddant ar gael i'w hastudio neu i'w harddangos.

*Clare Stoughton-Harris, Cadwraethydd Tecstilau,
Adran Bywyd Gwerin, Amgueddfa Werin Cymru*



Daw llawer o'r dodrefn clustogwaith sydd ar ddangos ym mharlwr Castell Sain Ffagan yn wreiddiol o Ystad Rhydodyn, Sir Gaerfyrddin

Much of the upholstered furniture on display in the withdrawing room of St Fagans Castle comes originally from Edwinstord Estate, Carmarthenshire

canvas work. The sofa would never again be sat on, so strength of attachment was not imperative, but it was equally important to be able to remove the panels without causing damage, should this be necessary in the future.

Lengths of cotton tape were stapled to the wooden frames along the original tack hole lines. Staples were positioned approximately every 15cm. to provide a rigid base to which the panels could be sewn using a curved needle. The inner edges of the arms and back had to be stitched first before these sections were screwed and bolted back in position. The outer edges could then be positioned and stitched in place.

Following treatment of the associated mouldings and legs, they were reinstated using the original screws and nails wherever possible. It is hoped that the labels removed from the reverse will be treated in due course and made available for study or display.

Clare Stoughton-Harris, Textile Conservator, Department of Social and Cultural History, Museum of Welsh Life